# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 19 Mawrth 2019

Amser y cyfarfod: 13.30

# 197(v2)

## 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

(30 munud)

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

## 3 Datganiad gan y Prif Weinidog: Y Diweddaraf am Drafodaethau'r UE

(45 munud)

## 4 Rheoliadau Iechyd a Lles Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019

(15 munud)

**NDM6994** - Rebecca Evans (Gwyr)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

1. Yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o Reoliadau Iechyd a Lles Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 20 Chwefror 2019.

**Dogfennau Ategol**

Memorandwm Esboniadol

Adroddiad y Pwyllgor Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

## 5 Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019

(15 munud)

**NDM6995** – Rebecca Evans (Gwyr)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

1. Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 20 Chwefror 2019.

**Dogfennau Ategol**

Memorandwm Esboniadol

Adroddiad y Pwyllgor Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

## 6 Dadl: Dadansoddiad o Effaith Diwygio Lles Llywodraeth y DU ar Aelwydydd yng Nghymru

(60 munud)

**NDM6993** – Rebecca Evans (Gwyr)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi'r dadansoddiad empirig o effaith Diwygiadau Llywodraeth y Deyrnas Unedig i'r System Les ar Aelwydydd yng Nghymru.

2. Yn cydnabod yr effaith negyddol ar fywydau'r bobl dlotaf a mwyaf agored i niwed yng Nghymru, ac yn gresynu at hynny.

[Effaith diwygiadau lles ar aelwydydd yng Nghymru]

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1** – [Darren Millar (Gorllewin Clwyd)]

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod dadansoddiad Llywodraeth Cymru o effaith diwygio lles.

2. Yn nodi sylwadau diweddar a wnaed gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau ynghylch y broses o gyflwyno Credyd Cynhwysol a Thaliadau Annibyniaeth Personol, yn ogystal â'r camau a gymerwyd gan Lywodraeth y DU i ymdrin â phryderon dros weithredu'r ddau.

3. Yn nodi ymhellach bod Llywodraeth Cymru wedi cyfaddef mai cyflogaeth yw un o'r ffyrdd gorau o fynd i'r afael ag anghydraddoldeb, drwy ei Rhaglen Lywodraethu a'r cynllun gweithredu economaidd;

4. Yn pryderu, er bod cyflogaeth wedi cynyddu'n sylweddol ers 2010, bod adroddiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, 'A yw Cymru'n Decach?' yn nodi bod tlodi ac amddifadedd yn dal yn uwch yng Nghymru na gwledydd eraill Prydain; Cymru yw'r genedl leiaf cynhyrchiol yn y DU, ac mae enillion wythnosol canolrifol yng Nghymru yn is nag yn Lloegr a'r Alban.

5. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi cynllun cadarn ac ystyrlon i fynd i'r afael â thlodi, sy'n cynnwys targedau perfformiad clir a dangosyddion i fesur cynnydd.

[House of Commons Hansard, 19 Tachwedd 2018] *(Saesneg yn unig)*

[House of Commons Hansard, 11 Chwefror 2019] *(Saesneg yn unig)*

[Y Gwir Anrh Amber Rudd AS – Araith – Closing the gap between intention and experience] – 5 Mawrth 2019 *(Saesneg yn unig)*

[Llywodraeth Cymru – Symud Cymru Ymlaen – Medi 2016]

[Llywodraeth Cymru – Ffyniant i bawb: cynllun gweithredu ar yr economi – Mai 2018]

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol - A Yw Cymru'n Decach? - 25 Hydref 2018

**Gwelliant 2** - Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw am ddatganoli gwaith gweinyddol lles i Gymru fel y gellir rhoi mesurau lliniaru ar waith.

## 7 Dadl: Cyfnod 3 y Bil Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc.) (Cymru)

(120 munud)

Caiff y gwelliannau eu gwaredu yn y drefn y cafodd yr adrannau a'r atodlenni y maent yn cyfeirio atynt eu rhestru yn y cynnig o dan Reol Sefydlog 26.36 a gytunwyd gan y Cynulliad ar 8 Ionawr 2019.

Mae'r gwelliannau wedi cael eu grwpio at ddibenion y ddadl a byddant yn cael eu trafod fel a ganlyn:

**Grŵp 1: Taliadau gwaharddedig - terfynu contract**

3, 4, 6, 7, 8, 10, 23, 24, 1, 2

**Grŵp 2: Esboniadau drafftio**

5, 28

**Grŵp 3: Ad-dalu taliadau gwaharddedig**

55, 57

**Grŵp 4: Dirymu trwyddedau**

56, 58

**Grŵp 5: Taliadau a ganiateir**

9, 64

**Grŵp 6: Blaendaliadau cadw**

29, 30, 31, 36, 37, 65, 66, 38, 67, 39, 40, 41, 42

**Grŵp 7: Diffygdaliadau**

32, 33, 62, 34, 63, 59, 27

**Grŵp 8: Pwerau gwneud rheoliadau**

35, 48, 49, 52, 51, 50

**Grŵp 9: Awdurdodau gorfodi**

11, 12, 13, 14, 15, 16, 18, 19,  20

**Grŵp 10: Hysbysiadau cosb benodedig**

43, 44

**Grŵp 11: Awdurdodau gorfodi: rhannu gwybodaeth**

45, 17, 21

**Grŵp 12: Pŵer awdurdod trwyddedu i ddwyn achos troseddol**

22

**Grŵp 13: Cyfyngiadau ar roi hysbysiad ar gyfer meddiant**

46, 54

**Grŵp 14: Gwybodaeth a chanllawiau**

25, 26, 47, 53

**Grŵp 15: Dod i rym**

60, 61

**Dogfennau Ategol**

Bil Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc.) (Cymru)

Memorandwm Esboniadol

Rhestr o welliannau wedi’u didoli

Grwpio gwelliannau

## 8 Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019

(15 munud)

**NDM6992** – Rebecca Evans (Gwyr)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5

1. Yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o Reoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 20 Chwefror 2019.

**Dogfennau Ategol**

Memorandwm Esboniadol

Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

## 9 Cyfnod pleidleisio

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 20 Mawrth 2019